

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 302 - Beirniadaeth Cyfansoddi Cainc dan 25 oed

#### Beirniad: Mair Carrington Roberts

Daeth pump o geinciau i law gan un cyfansoddwr. Gan na chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy nag un waith ym mhob cystadleuaeth o fewn yr adran (Rheol 9), rhaid oedd dethol y gorau a safoni honno. Rwy'n canmol arddull gerddorol y ceinciau hyn yn gyffredinol, er fod tuedd weithiau i orlwytho'r gynghanedd. Bron y Fedw Uchaf ddaeth i'r brig.

Y dasg oedd cyfansoddi cainc ar unrhyw fesur ac unrhyw naws.

Mae hon yn gainc fawreddog, wyth bar y pen, ac mae'n adlewyrchu'r traddodiad yn ogystal â chyfeirio ymlaen.

Mae'r gynghanedd yn ddiddorol a chyfoethog, ac mae datblygiad yr ail adran yn arwain yn fedrus i'r uchafbwynt. Dyma gainc gyda chynllun da ac alaw soniarus, ac wedi ei threfnu'n dda i'r delyn.

Dylid ei chyhoeddi ar ôl golygu ambell frycheuyn bach harmonig.

Bydd yn sail hyfryd i osod cyfalawon arni, yn enwedig ar gyfer cystadlaethau corau a phartïon.

Gwobrwyer Gronw a diolch iddo am gystadlu.

1af - Gronw Ifan